# Diwygio Cyfraith Breifat Cafcass Cymru
## Taflen Ffeithiau Dull Peilot Rheol 16.4 Cafcass Cymru
**Mehefin 2023**

### Beth yw dull peilot Rheol 16.4?

O 3 Gorffennaf 2023 bydd Cafcass Cymru yn treialu dull newydd ar gyfer achosion Rheol 16.4. Rydym yn cyflwyno dull strwythuredig sydd â'r nod o:

- Nodi pob mater perthnasol a'r camau sydd eu hangen i'w datrys mewn adroddiad dadansoddi cychwynnol o fewn wythnosau cyntaf penodi'r gwarcheidwad plant.
- Sicrhau bod yr achos yn canolbwyntio ar ddiogelwch, buddiannau gorau a llesiant y plentyn a bod eu llais yn cael ei glywed yn yr achos.
- Defnyddio dull ymchwilio lle rydym yn cynnwys rhieni a gofalwyr mewn dull datrys problemau, gan weithio am gyfnod cyfyngedig o amser i alluogi'r llys i wneud penderfyniadau amserol ac osgoi oedi i'r plentyn.

### Sut y bydd Cafcass Cymru yn gweithio gyda theuluoedd mewn achosion Rheol 16.4?

1. **Wythnos 1** – Cynllunio
2. **Wythnosau 2-4** – Ymholiadau cychwynnol
3. **Wythnos 4** – Llunio dadansoddiad cychwynnol a chynllun gwaith
4. **Wythnos 5 ymlaen** – Asesiad ac ymyriad
5. **Erbyn wythnos 24 fan bellaf** – Adroddiad dadansoddi terfynol

Bydd ein dadansoddiad cychwynnol yn rhoi dadansoddiad risg o'r sefyllfa bresennol i'r plant a chyngor ar reoli achosion, gan gynnwys unrhyw dystiolaeth arbenigol sy'n ofynnol, ac amserlen y plentyn.  Lle y bo'n berthnasol, caiff cynllun gwaith Rheol 16.4 ei atodi.

Byddwn yn ymgysylltu â'r plentyn cyn gynted ag y bo modd yn yr achos, gan sicrhau bod ganddo'r wybododaeth angenrheidiol ac y gall gymryd rhan mewn penderfyniadau a fydd yn effeithio arno, yn unol â'i hawliau CCUHP, a'i fod yn cael gwybod am ganlyniad yr achos.

Byddwn yn mabwysiadu dull sy'n datrys problemau, wedi'i lywio gan drawma, ac yn gweithio gyda rhieni a gofalwyr i ddeall eu safbwyntiau gan gadw'r ffocws ar ddiogelwch a sefydlogrwydd eu plant.

Byddwn yn cydweithio â'r Awdurdod Lleol, os caiff ei gynnwys. Caiff unrhyw argymhellion ar gyfer adroddiad adran 37 (Deddf Plant 1989) gan Awdurdod Lleol eu cefnogi mewn atgyfeiriad diogelu, yn unol â gweithdrefnau cyfathrebu adran 37 Cafcass Cymru.

Bydd ein hadroddiad dadansoddi terfynol yn rhoi dadansoddiad o'r cynnydd a wnaed, beth sydd angen iddo ddigwydd i ddiwallu anghenion y plentyn a bydd yn gwneud argymhellion sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau diogel i blant a dioddefwyr cam-drin domestig.

## Pam y mae angen dull peilot Rheol 16.4?

Gall achosion hir gael effaith andwyol ar blant a phobl ifanc a'u teuluoedd.  Yn wahanol i gyfraith gyhoeddus, ni cheir amserlen statudol mewn cyfraith breifat ac phrin yw'r data ar achosion Rheol 16.4: yn 2022, dangosodd y data bod achosion Rheol 16.4 yn cymryd 96 wythnos a 10 gwrandawiad i'w cwblhau ar gyfartaledd. Canfu archwiliad diweddar Cafcass Cymru o achosion Rheol 16.4, ar gyfer tua hanner y plant, mai'r canlyniad terfynol oedd dim newid o ran pwy roeddent yn cyd-fyw â nhw nac yn treulio amser gyda nhw ar ddiwedd achosion hir.

Mae gwaith ymchwil yn dangos bod plant am gael gwell gwybodaeth am benderfyniadau sy'n effeithio arnynt a chael eu cynnwys yn well yn y penderfyniadau hynny.  Canfu ein harchwiliad y gallai eu lleisiau gael eu colli mewn achosion estynedig.  Nod ein dull peilot yw sicrhau bod lleisiau plant yn rhan ganolog o'r achosion.

## Sut y caiff dull peilot Rheol 16.4 ei werthuso?

Bydd Cafcass Cymru yn adolygu'r dull yn barhaus dros yr ychydig fisoedd cyntaf o dreialu'r dull newydd ac yn gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i sicrhau ei fod yn effeithiol.

Er ein bod yn cydnabod y bydd achosion eithriadol lle gall fod angen ymestyn amserlenni, rydym yn rhagweld, drwy roi mwy o bwyslais ar gamau rhagarweiniol a mabwysiadu dull sy'n datrys problemau gan ganolbwyntio ar y plentyn yn y mwyafrif o achosion, gall ein gwaith gael ei gwblhau o fewn chwe mis i benodi gwarcheidwad plant.

Byddwn yn gwerthuso'r dull yn ffurfiol ar ôl deuddeg mis.

## Penodi Gwarcheidwad Plant o dan Reol 16.4

Mae Cafcass Cymru yn cydnabod mai dim ond y llys all wneud y penderfyniad i wneud y plentyn yn barti, gan ystyried ffeithiau ac amgylchiadau'r achos penodol.

Pan fydd y llys yn ystyried penodi Gwarcheidwad Plant o Cafcass Cymru, i ddechrau dylai sicrhau y gwnaed ymholiadau i'r rheolwr priodol yn Cafcass Cymru yn unol â pharagraff 7.4, Rhan 4 o Gyfarwyddyd Ymarfer 16A.
Dylid gwneud hyn yn ysgrifenedig cyn y gwrandawiad neu drwy drafod â'r rheolwr perthnasol yn Cafcass Cymru drwy'r rhif ffôn a roddir isod. Dylai'r llys ymgynghori â Cafcass Cymru, er mwyn ystyried unrhyw gyngor mewn perthynas â'r darpar benodiad a'r amserlen dan sylw.

Mae paragraff 18.4 o Gyfarwyddyd Ymarfer 12B yn nodi, wrth ystyried gwneud y penodiad, y bydd y llys yn ystyried y gofynion y byddai penodiad o'r fath yn ei wneud ar adnoddau Cafcass Cymru. Dylai'r llys hefyd esbonio diben y penodiad ac amserlen unrhyw waith i'w wneud o ystyried unrhyw orchymyn.

Mae'r rheolwr practis ar ddyletswydd ar gyfer pob ardal o Cafcass Cymru ar gael i ymgynghori ag ef, a gall y Llys gysylltu ag ef drwy'r rhifau ffôn a'r cyfeiriadau e-bost canlynol:

- Gwent: 0300 025 2800
  CafcassCymru-GwentPracticeManagers@gov.wales

- De Cymru: 0300 062 8877
  CafcassCymru-SouthWalesPracticeManagers@gov.wales

- De-orllewin Cymru: 0300 025 5600
  CafcassCymruSouthWestWalesPracticeManagers@gov.wales

- Canolbarth a Gorllewin Cymru: 0300 025 5016
  CafcassCymru-MidandWestWalesPracticeManagers@gov.wales

- Gogledd Cymru: 0300 062 5821
  CafcassCymruNorthWalesPracticeManager@gov.wales